

## CYDBWYLLGOR ARCHIFAU MORGANNWG

DYDD GWENER, 16 RHAGFYR 2022

Yn  
bressenol: Cynghorydd Y Cynghorydd Wendy Lewis(Cadeirydd)

Cynghorwyr Cowan, Lewis, Mackie, Robson, John, Simmonds,  
Andrews, Colbran a/ac G Jones

### 18 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr K Jones a P Blundell.

Dywedodd y Cynghorwyr Cowan a Robson y byddai'n rhaid iddynt adael y cyfarfod am 2.30pm

### 19 : DATGAN BUDDIANNAU

Dim wedi'u derbyn.

### 20 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Medi 2022 fel cofnod cywir.

### 21 : ADRODDIAD CHWARTEROL 1 MEDI - 30 TACHWEDD 2022

Rhoddwyd diweddariad cynhwysfawr i'r Aelodau ar waith y gwasanaeth ar gyfer y cyfnod rhwng 3 Medi 2022 a 30 Tachwedd 2022 gyda'r cyfan wedi'i gategoreiddio yn erbyn canlyniadau'r Cynllun Blynyddol.

Yn gryno, esboniodd yr Archifydd fod nifer o bethau positif wedi'u gweld y chwarter hwn, o'r ceisiadau llwyddiannus am gyllid oedd wedi'u sicrhau, neu y mae'r Archifau'n ymwneud â phartneriaethau i'w sicrhau, a fydd yn arwain at waith na fyddai fel arall yn cael ei gwblhau. Bu datblygiadau hefyd tuag at geisiadau eraill am gyllid allanol.

Mae llawer o waith wedi'i gwblhau gan staff a gwirfoddolwyr yn y chwarter hwn, ac mae'r gwasanaeth yn parhau'n brysur gydag ymweliadau ar y safle ac ymholiadau o bell. Mae'n ymddangos bod nifer cynyddol o geisiadau am ddigideiddio yn cael eu derbyn ac mae hyn yn werthfawr at ddibenion cynhyrchu incwm.

Mae cynnal a chadw'r adeilad yn parhau'n her sylweddol, yn enwedig oherwydd costau cyflenwi cynyddol a'r ystod a'r nifer o faterion sy'n parhau i gyflwyno eu hunain. Bydd hyn yn parhau i gael ei fonitro a'i asesu.

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r Aelodau ofyn cwestiynau a rhoi sylwadau.

Roedd yr Aelodau wedi mwynhau ymweliad â'r Archifau ac yn dymuno canmol y staff sy'n cadw'r adeilad mewn cyflwr glân iawn ac yn gwneud gwaith gwych.

Mynegodd yr Aelodau bryderon ynghylch rheoli'r gwres â llaw gan nodi bod gan y gwasanaeth ddyletswydd gofal i'w staff i'w cadw'n gynnes a chyfforddus yn y gwaith, roedd hyn hefyd yn bwysig ar gyfer eu lles. Nododd yr Archifydd fod hwn yn bwynt da ac esboniodd ei bod yn ymwybodol o'r pryderon hyn. Rhoddwyd sicrwydd i'r Aelodau fod problem weithredu ar hyn o bryd gyda'r gwres a fydd yn cael ei thrwsio ond ar hyn o bryd maent yn diffodd y gwres pan fydd yn codi i dymheredd yn yr adeilad. Y brif broblem oedd bore Llun pan nad oedd yr adeilad wedi bod yn cael ei ddefnyddio drwy'r penwythnos, ond mae'r gwres yn cynhesu'n eithaf cyflym. Esboniodd yr Archifydd ymhellach fod y cyntedd yn mynd yn oer oherwydd y drws troi ond rhoddodd sicrwydd i'r Aelodau nad oes unrhyw aelod o staff yno'n barhaol.

PENDERFYNWYD: nodi cynnwys yr adroddiad.

## 22 : DATGANIAD BLYNYDDOL CYD-BWYLLGOR ARCHIFAU MORGANNWG AR GYFER 2021/22

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod y Datganiad Blynnyddol bellach wedi'i gymeradwyo a bod yr ymholiadau heb eu datrys o ran Balans Credydwyr/Dyledwyr ar ddiwedd y flwyddyn wedi'u datrys.

Roedd yr Archwiliad Allanol wedi'i gwblhau ym mis Tachwedd.

PENDERFYNWYD: Nodwyd.

## 23 : ADRODDIAD MONITRO MIS 7 ARCHIFAU MORGANNWG AR GYFER 2022/23 A CHYNIGION CYLLIDEB ARCHIFAU MORGANNWG AR GYFER 2023-24

Cafodd yr Aelodau amlinelliad cynhwysfawr o'r adroddiad a'i holl brif benawdau ac wedyn gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau ar yr adroddiad.

Gofynnodd yr Aelodau a oedd y Swyddogion wedi bod mewn cysylltiad â'r Swyddogion A151 o'r Awdurdodau Lleol ar y Cyd a'u gwneud yn ymwybodol o'r sefyllfa bresennol. Dywedodd y Swyddogion fod hyn wedi digwydd.

Nododd yr Aelodau fod penderfyniadau anodd i'w gwneud a diolchon nhw i'r Swyddogion am eu gwaith caled.

PENDERFYNWYD:

- a) Nodi'r sefyllfa alldro blwyddyn lawn a ragwelir ar gyfer 2022/23 fel y nodir yn yr adroddiad hwn.
- b) Argymhell y dylid cytuno ar y cynigion cyllideb drafft ar gyfer 2023/24, fel y'u cyflwynir ym mharagraffau 28 i 56 yr adroddiad hwn.

## 24 : FFIOEDD A THALIADAU WEDI'U DIWEDDARU O FIS EBRILL 2023

Rhoddodd yr Archifydd amlinelliad cynhwysfawr o'r adroddiad a'r prif faterion, ar ôl hynny gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau, arsylwadau a sylwadau gan Aelodau'r Cydbwyllgor.

Roedd yr Aelodau'n falch o glywed am y cyfleusterau gwneud bocsys yn yr Archifau. Esboniodd yr Archifydd fod hyn yn dod ag incwm da i'r Archifau a bod ganddynt gontractau mawr ar waith ar hyn o bryd.

Nododd yr Aelodau fod cynnydd wedi bod ym mhris cerdyn ac y byddai'r Archifydd yn monitro hyn yn agos.

PENDERFYNWYD: cytuno ar raddfa arfaethedig Ffioedd a Thaliadau ar gyfer 2023-24.

## 25 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

24 Mawrth 2023 am 2.00pm drwy Teams.

Daeth y cyfarfod i ben am 3.00 pm